

Cyfarwyddiadau Wi-Fi i Ddyfeisiau Android

Dyma ganllaw i staff a myfyrwyr ar sut i gysylltu â rhwydwaith eduroam y coleg ar unrhyw gampws.

Cafodd y sgrinluniau isod eu tynnu ar Motorola G9 (android 11) a Samsung Galaxy J3 (android 9). Gellir defnyddio'r canllaw hwn ar gyfer dyfeisiau eraill megis tabledi Galaxy os oes angen.

Noder: Bydd dyfeisiau gwahanol yn cysylltu â'r Wi-Fi mewn ffyrdd gwahanol, gan na fydd gan bob dyfais yr un meddalwedd android ac ati.


Efallai y bydd y canllaw cyntaf yn fwy defnyddiol ar gyfer dyfeisiau android diweddar sydd â fersiwn uwch o'r feddalwedd. Yn yr un modd, gall yr ail ganllaw fod yn fwy defnyddiol ar gyfer phobl sy'n berchen ar ffonau sydd â meddalwedd android hŷn.

Os oes gennych broblemau yn cysylltu â'r Wi-Fi ar ôl ceisio dilyn y canllawiau hyn, gallwch gysylltu â'r Gwasanaethau Cyfrifiadurol drwy'r ddesg gymorth i gael gafael ar gymorth:

<https://helpdesk.gcs.ac.uk:8443/portal> ebost: cshelpdesk@gcs.ac.uk

Myfyrwyr/staff sy'n dychwelyd

Os ydych chi'n fyfyrwr sy'n dychwelyd neu'n aelod presennol o staff ac wedi cael mynediad i'r Wi-Fi yn y gorffennol, gallwch ddilyn y cam hwn. Ewch i ap 'eduroam' a diweddarwch eich cyfrinair trwy glicio 'password'. Ar ôl gwneud hyn, cliciwch 'Install'. Dylai fod gennych nawr fynediad i Wi-Fi y Coleg.




Os oes gennych ddyfais newydd, bydd angen i chi ddilyn y canllaw isod.

Ap_Eduroam (Y Dull sy'n well gennym)


1. Ewch i **'Settings'** ar eich dyfais.




2. Dewiswch **'Network and Internet'**.




3. Cliciwch a chysylltwch â **'GCS_Wi-Fi'**.




4. Ar ôl hyn, caewch **'Network and Internet'**. Yna, ewch i'r **'Play Store'** ar eich dyfais.




5. Chwiliwch am ap **'eduroam CAT'**. Yna, cliciwch **'Install'**.




6. Nid yw'r cam canlynol yn berthnasol i bob dyfais, ond os yw'r sgrin isod yn ymddangos, dewiswch **'Skip'**.




7. Cliciwch **'While using the app'** a dewiswch **'Gower College Swansea'**.



8. Cliciwch **'Allow'**, cyn dewis **'Install'**.



9. Cliciwch 'Yes' i lawrlwytho'r proffil



10. Yma, bydd angen i chi fewnbynnu eich manylion coleg.

Staff:

Enw Defnyddiwr: joe.bloggs@gcs.ac.uk

Cyfrinair: Cyfrinair Coleg

Efallai na fydd angen @gcs.ac.uk, mae hyn yn dibynnu ar fodel eich dyfais

(Yr un enw defnyddiwr rydych chi'n ei ddefnyddio ar gyfrifiaduron y coleg.)

Myfyrwyr:

Enw Defnyddiwr: ABC12345678@gcs.ac.uk


Cyfrinair: Cyfrinair Coleg

Efallai y bydd rhai dyfeisiau yn gofyn am @stu.gcs.ac.uk yn hytrach na @gcs.ac.uk, mae hyn yn amrywio o ddyfais i ddyfais.

(Yr un enw defnyddiwr rydych chi'n ei ddefnyddio ar gyfrifiaduron y coleg.)

Yna, cliciwch 'Install'.

11. Os yw'r manylion uchod yn gywir, bydd neges yn ymddangos ar eich sgrin yn dweud 'Profile Installed'. Ar ôl hyn, caewch yr ap ac ewch nôl i 'Settings'.




Username:

Password:

Installing a profile will replace any existing eduroam settings

Install

Status: WiFi ON: COMPLETED: "GCS_Wi-Fi"



Current device configuration:

- Found SSID "eduroam" with mibee rice
- Anon ID=anonymous@gcs.ac.uk
- User ID=
- EAP Method=TTLS with Phase2, MSCHAPv2
- CA Certificate OK
- Server Subject Match=radius.gcs.ac.uk

Username:

Password:


Profile installed



Settings

12. Cliciwch ‘**Network & Internet**’, cyn dewis ‘**Wi-Fi**’. Gwiriwch a yw’ch dyfais yn cysylltu ag ‘**Eduroam**’. Ar ôl gwneud hyn, fe fydd gennych fynediad at rwydwaith eduroam y Coleg.

Pan fydd eich cyfrinair yn newid yn ystod y flwyddyn, dilynwch y canllawiau ar gyfer **myfyrwyr sy’n dychwelyd/staff presennol** sydd i’w gweld uchod i ailgysylltu â Wi-Fi y coleg.




Tystysgrif CA (Dull Gwahanol)

Fel y soniwyd ar ddechrau’r ddogfen, dyma’r canllawiau y dylech ddilyn os na weithiodd y dull cyntaf. Efallai bydd y canllaw hwn yn fwy defnyddiol i chi.


Myfyrwyr sy’n dychwelyd/staff presennol Rhan 2

Os ydych chi’n fyfyrwr sy’n dychwelyd/aelod presennol o staff ac wedi cael mynediad i Wi-Fi y coleg yn y gorffennol, gallwch ddilyn y cam hwn. I ailgysylltu â Wi-Fi y coleg, ewch i ‘**Settings**’. Yna, dewiswch ‘**Network and Internet**’, neu’r opsiwn cyfatebol ar eich dyfais android. Cliciwch ‘**eduroam**’ a dewiswch ‘**Modify Network**’. Ar ôl gwneud hyn, mewnbynnwch eich cyfrinair coleg yn yr adran ‘**Password**’, cyn gwasgu ‘**Connect**’ i gael mynediad i’r rhyngwyd.





Fodd bynnag, os oes gennych ddyfais newydd, dilynwch y canllaw isod.


1. Ewch i **'Settings'** a chliciwch **'Network and Internet'**.




2. Cliciwch **'GCS_Wi-Fi'**




- Yna, caewch **'Settings'** a chliciwch **'Chrome'**. Chwiliwch am **'gower college swansea'** yn y blwch chwilio.



- Pan fydd y dudalen isod yn ymddangos, dewiswch **'Staff / Student Portal'**.




- Ar ôl i'r dudalen lwytho, sgroliwch i lawr a chliciwch **'eduroam'**.




6. Yna, sgrolwch i lawr a chlicio'r opsiwn '**Manual configuration – Android**'.




7. Yna, cliciwch '**CA Certificate file**'.




8. Ar ôl dewis y ffeil, yn dibynnu ar eich dyfais, efallai bydd angen i chi greu cyfrinair neu gyrchu gosodiadau/ffeiliau eich dyfais. Os yw hyn yn digwydd, cliciwch '**ok**' neu '**allow**'. Os nad yw hyn yn digwydd, ewch i'r cam nesaf.




9. Pan fydd y sgrin isod yn ymddangos, cliciwch **'VPN and apps'** a newidiwch yr opsiwn i **'Wi-Fi'**. Ar ôl hyn, teipiwch **'GCS'** yn y blwch **'Certificate name'**. Unwaith y byddwch wedi gwneud y newidiadau hyn, cliciwch **'OK'**.




10. Ar ôl clicio **'OK'**, mi ddylai'r dystysgrif lawrlwytho. Caewch y wefan ac ewch nôl i **'Settings'**.



11. Yna, ewch i **'Network and Internet'** yn y gosodiadau neu'r opsiwn cyfatebol, os nad opsiwn isod yn ymddangos ar eich dyfais.




12. Cliciwch **'GCS-Wi-Fi'** ac yna **'Forget Network'**. Ar ôl gwneud hyn, cliciwch **'eduroam'** i gysylltu.



13. Yna, bydd gofyn i chi ddewis y gosodiadau cywir. Gall y rhan amrywio, yn dibynnu ar eich dyfais a pha feddalwedd Android rydych chi'n ei ddefnyddio.

Gosodiadau:

Dewisiwch **'EAP method'**: Sicrhewch eich bod yn dewis **'PEAP'**.



O dan 'EAP method', efallai y bydd eich dyfais yn gofyn i chi am **'Phase 2 Authentication'**. Gwnewch yn siŵr bod **'MSCHAPv2'** yn cael ei ddewis. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar eich dyfais. Os na fydd hyn yn ymddangos ar eich sgrin, parhewch i'r cam nesaf.


'Identity' a 'Password':

Staff:

Enw Defnyddiwr: joe.bloggs@gcs.ac.uk

Cyfrinair: Cyfrinair Coleg

Efallai na fydd angen
@gcs.ac.uk, mae
hyn yn dibynnu ar
eich ffôn



(Yr enw defnyddiwr rydych yn ei ddefnyddio i fewngofnodi i gyfrifiaduron y coleg.)

Myfyrwyr:

Enw Defnyddiwr: ABC12345678@gcs.ac.uk

Cyfrinair: Cyfrinair Coleg


Efallai bydd rhai dyfeisiau
android yn gofyn i chi
ddefnyddio
@stu.gcs.ac.uk yn hytrach
na @gcs.ac.uk. Mae hyn
yn amrywio o ffôn i ffôn

Os yw'r geiriau **'Anonymous Identity'**
yn ymddangos ar eich sgrin, symudwch
ymlaen i fewnbynnu eich cyfrinair.

(Yr enw defnyddiwr rydych yn ei ddefnyddio i fewngofnodi i gyfrifiaduron y coleg.)

Tystysgrif CA:

Ar ôl ichi fewnbynnu eich manylion yn yr adran uchod, bydd angen i chi gwblhau'r adran hon. Ewch i 'CA Certificate', cliciwch 'Please Select' a dewiswch 'GCS'.



Ar ôl cwblhau'r adrannau hyn, fe ddylai eich sgrin edrych fel hyn:

EAP method - **PEAP**


Phase 2 Authentication - **MSCHAPv2 (os yw'n gofyn)**

Identity – **manylion mewngofnodi staff/myfyriwr**

Password – **Cyfrinair Coleg**

CA Certificate – **GCS**

Efallai na fydd angen @gcs.ac.uk neu @stu.gcs.ac.uk, ma hynny'n dibynnu ar eich ffôn.



Ar ôl cwblhau'r camau uchod, cliciwch '**Connect**'.

14. Fe ddylech nawr fod wedi cysylltu â rhwydwaith eduroam.

Pan fydd gofyn i chi newid eich cyfrinair yn ystod y flwyddyn coleg, dilynwch y camau '**myfyrrwyr sy'n dychwelyd/staff presennol Rhan 2**' sydd i'w gweld ar ddechrau'r canllawiau i gael mynediad i Wi-Fi y Coleg.

